

❖ GWELSAANT EI SEREN EF

Darllenwn ar ddechrau Efengyl Mathew i sêr-ddewiniaid ddod o'r dwyrain i Jerwsalem i chwilio am y brenin newydd oedd wedi'i eni wedi iddynt weld ei seren ef ar ei chyfodiad.

O edrych ar hanes y cyfnod o gylch geni Iesu, mae arteffactau'n dangos bod diddordeb mawr mewn astroleg neu sêr-ddewiniaeth bryd hynny ac ni fyddai'n rhyfedd felly bod sêr-ddewiniaid yn rhan o'r stori. I ni heddiw, disgleirdeb y seren a bwysleisir ac mae seryddwyr dros ganrifoedd wedi ceisio dangos pam fod y seren hon, seren enwocaf hanes, seren Bethlehem, yn disgleirio mor ddisglair a phryd yn union y'i gwelwyd. Bu rhai ohonynt yn chwilio am un seren nodedig o ddisglair neu am seren gynffon neu am gyfuniad arbennig o'r planedau, ond ceir awgrym gan ambell un hefyd hwnt ac yma y gellid honni nad oherwydd ei disgleirdeb yn unig y tybid gan y sêr-ddewiniaid bod y seren hon mor arwyddocaol, e.e. o ystyried nad oedd y seren yn weledol amlwg i Herod na'i lys nac i boblogaeth gyffredinol Jwdea ar y pryd (am ba reswm bynnag y bu hynny). Ac roedd hi yn arwyddocaol, mor arwyddocaol nes gorfodi'r gwŷr hyn i ymgymryd â'r daith i Fethlehem.

Ym 1604, awgrymodd y mathemategwr a'r seryddwr, Johannes Kepler, y gallai'r cyfuniad enfawr a welwyd rhwng y planedau Iau a Sadwrn yn 5 CC fod wedi cynnau nofa a ddaeth yn seren y gwŷr doeth. Mae Sadwrn a Iau yn dod yn bur agos at ei gilydd yn lled aml ond roedd y cyfuniad y soniodd Kepler amdano yn un anghyffredin iawn. Digwyddodd peth tebyg ym 1604. Ac wedi sylwi ar yr hyn ddigwyddodd bryd hynny, gweithiodd Kepler ei ffordd 'yn ôl' nes dod i'r casgliad bod Iesu wedi ei eni sawl blwyddyn cyn y flwyddyn a gydnabyddir yn swyddogol yn flwyddyn ei eni.

Erbyn heddiw, fodd bynnag, mae'r farn gyffredin gan arbenigwyr ynglŷn â dyddiad geni Crist wedi newid eto ac, o safbwynt seryddiaeth, mae'r syniad o gyfuniad arbennig yn ddechrau i uwchnofa wedi'i ddiosg gan symud i'r 'cyfuniad triphlyg' a welwyd yn y flwyddyn 7 CC.

I ni heddiw mae astroleg yn perthyn i fyd y pethau sydd ar eu gorau yn ofergoelion diniwed ac ar eu gwaethaf yn beryglus ac yn bethau i'w hosgoi. Nid felly y bu hi erioed. Am gyfnod maith, ystyrid astroleg yn un o'r gwyddorau a gosodid pwys ar yr hyn a ddywedid gan yr astrolegwyr. Nid ystyrid chwaith bod datganiadau'r astrolegwyr yn groes graen i'r hyn a oedd yn dderbyniol gan yr Eglwys.

Pan ymchwiliodd Kepler i leoliad a symudiadau'r sêr yn y nen yn 5 CC nid ymchwiliad astronomyddol yn unig a wnaeth ond gweithiodd yn ogystal ar arwyddocâd astrolegol yr hyn a welwyd ganddo gan ddod i'r casgliad bod i'r hyn a ddigwyddodd yn y ffurfafen yn 5 CC arwyddocâd astrolegol enfawr. Gŵr crefyddol oedd Kepler a phan oedd yn Athro mathemateg ym Mhrifysgol Graz yn Awstria, cafodd ei daflu o'i swydd am ei ddaliadau Protestanaidd mewn gwlad Gatholig. Nid am ei ymwneud ag astroleg y collodd ei swydd. Yr awgrym yw os mai'r un arwyddion astroleg a welodd y sêr-ddewiniaid yn 5 CC ag a welodd Kepler does rhyfedd iddynt deimlo gorfodaeth iddynt fynd ar daith i gael gweld y rhyfeddod hwnnw. Mae rhai yn awgrymu y gellir dadlau hyd yn oed bod y geiriau sy'n ymwneud â hanes y gwŷr doeth a'r seren yn Efengyl Mathew yn eiriau technegol astrolegol, e.e. 'ar ei chyfodiad', ac 'aros uwchlaw', a 'mynd o'u blaen', rhai o'r rhain yn cyfeirio at y blaned Iau a oedd 'yn y dwyrain' ar y pryd.

Gwyddom nad oedd yr Apostol Paul yn credu mewn astroleg ac anodd fyddai meddwl bod unrhyw Gristion heddiw yn derbyn 'tystiolaeth' astrolegol. Yn wir, ystyrid astroleg yn beth anghristnogol. Ond yn yr hen fyd yn gyffredinol byddai i'r 'dystiolaeth' hon gydnabyddiaeth wirioneddol.

Nid yn yr hen fyd yn unig y rhoddid cydnabyddiaeth i bethau astrolegol. Gwelir enghreifftiau cain o arwyddion astrolegol wedi'u cerfio ar waliau a choridorau canolfannau dysg a arferai Gristnogaeth yn rhan ganolog o'u gweithgareddau, a chredai llawer o'r hen wyddonwyr mewn canrifoedd a fu fod y bydysawd yn dylanwadu'n fawr ar ein bywydau unigol.

Yn yr Oesoedd Canol, ystyrid bod cysylltiad creiddiol rhwng geni Crist ac amser Duw fel y'i gwelid yn y sêr – geni Crist oedd 'canol' amser ac roedd hyn wedi'i ddatguddio yn y Beibl. Credid ei bod yn rhan o Ragluniaeth y gellid gweld arwyddion ohoni ym mhob math o bethau. Roedd y sêr yn gallu datguddio – dyna pam y gellid cyfiawnhau bod esboniadau diwinyddol ac astrolegol yn ymddangos yr un pryd. Roedd astroleg hefyd fel gwyddor gydnabyddedig yn rhan o'r diwylliant Arabaidd mewn cyfnodau pan oedd y gwyddorau yn bwysicach iddynt hwy ac yn rhagori ar yr hyn a geid yng ngwledydd Cred. Mae'r pwyslais ar ffawd (neu ragluniaeth) a oedd yn rhan o'r broses astrolegol yn parhau yn y diwylliant Arabaidd hyd heddiw.

Ym 1437 cafwyd datganiad ym Mhrifysgol Paris na châi'r un meddyg na llawfeddyg fod heb almanac. Roedd gwyddonwyr a diwinyddion y cyfnod hwnnw eto yn derbyn, mewn egwyddor beth bynnag, y gallai

treigl y planedau a lleoliad y sêr ddylanwadu ar gymeriad ac ar bersonoliaeth – syniad a wrthodir yn bendant gennym ninnau heddiw.

Yn ôl yr hanes yn Efengyl Mathew, daeth y sêr-ddewiniaid (tri ohonynt yng Nghristnogaeth y gorllewin, deuddeg yng Nghristnogaeth Uniongred) i Jerwsalem. Ni wyddys yn union o ble y daethant. Dysgodd Beibl Peter Williams i'n tadau, 'Mae rhai yn meddwl mae'r Caldeaid oeddynt, y wlad lle y trigodd teidiau Abraham gynt; a lle y caethgludwyd ei hiliogaeth yr Iuddewon gwedi hynny; ac yn y wlad honno y prophwydodd Daniel yn amser Darius etc – Neu, medd eraill, yr Arabiaid lle trigodd Ismael a lle yr oedd cenedl Jethro, tad yng nghyfraith Moses...'

Yn ôl un traddodiad (nid yr un mwyaf poblogaidd) daeth y sêr-ddewiniaid o ddinas goll Ubar (sydd rhywle yn anialwch Oman ym mhenrhyn Arabia heddiw). Credid hynny gan fod trigolion y ddinas yn sêr-addolwyr, gallai'r sêr-ddewiniaid fod wedi teithio ar hyd y tramwyfeydd masnachol gan ddwyn aur o'r ddinas dra chyfoethog hon a ystyrid yn 'ail baradwys', thus am fod miloedd o dunelli o thus yn cael eu symud i'r gogledd o'r ardal hon yn flynyddol yn fasnachol, ac yno hefyd y tyfai'r coed myrr o'r ansawdd gorau.

Pa fodd bynnag y dewiswn ddehongli'r hyn a ddarllenwn yn Efengyl Mathew, mae seren wyrthiol Bethlehem, seren enwocaf hanes, yn elfen annatod o stori'r geni gwyrthiol. Gwendid pob cyfnod, mae'n siwr, yw credu bod y wybodaeth sy'n rhan o'r cyfnod hwnnw yn wybodaeth derfynol ac na ddaw dim i gymryd ei lle. Mae dirgelwch seren y Nadolig yn aros. Mae tystiolaeth wyddonol yn un elfen i'n darbwylllo o'i bodolaeth a'r ffenomenon seryddol diddorol yn beth y gall ein hoes ni ei ddeall yn gynt na'r dystiolaeth astrolegol oedd yn fynegiant o ddeall oesoedd a fu. Ond er ein holl ddeall a'n gwybodaeth, efallai mai'r farn arnom ni fel cyfnod yw ein bod yn dal i fod yn 'rhy gall i weld y wyrth' ac yn ein hawydd i resymu i ni golli hanfod y digwyddiad mwyaf fu erioed.